



**Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd
rhwng
y BBC ac S4C**

Tachwedd 7fed 2017

RHAGAIR

Parhau â phartneriaeth gref a llwyddiannus

Mae'r Cytundeb hwn yn amlinellu, ar lefel uchel, sut y bydd y BBC ac S4C yn gweithio mewn partneriaeth yn ystod y 10 mlynedd nesaf i ddarparu gwasanaethau er budd cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith. Mae'n parhau â phartneriaeth sydd wedi bod yn dra llwyddiannus ers mwy na deng mlynedd ar hugain ac yn adeiladu ar draddodiad arbennig y ddau sefydliad o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae'r Cytundeb hwn yn cofnodi'r ffordd y bydd y ddau sefydliad yn mynd ati i gyflawni ein hymrwymadau statudol, ond, yn fwy na hynny, mae'n amlinellu ein dyheadau ar gyfer partneriaeth yng ngwir ystyr y gair yn ystod y ddegawd nesaf, a sut y byddwn yn cydweithio gyda'n gilydd er budd cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.

Mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae mynediad at lwyfannau cyfryngau cyfoes yn hanfodol er mwyn i ieithoedd a diwylliannau oroesi. Mae amgylchedd cyfryngau egniol yn caniatáu hyrwyddo addysgu a dysgu pobl yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn hyrwyddo cyfathrebu a chreadigrwydd pellgyrhaeddol trwy gyfrwng yr iaith honno, ac yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod. Mae gwneud rhaglenni yn weithgarwch sy'n darparu buddion economaidd a chyfleoedd gyrfaol pwysig.

Ar hyd y ganrif ddiwethaf, mae hanes darlledu yn y Gymraeg wedi datblygu law yn llaw â hanes yr iaith Gymraeg ei hun, o'r darllediad radio cyntaf ym 1923 a sefydlu BBC Radio Cymru ym 1977, i sefydlu S4C ym 1982 a thwf dilynol y sector gynhyrchu annibynnol.

Mae cyswllt agos rhwng pwrpasau cyhoeddus y BBC a rhai S4C. Ein hamcan ar y cyd yw darparu gwasanaethau cyfryngau cyhoeddus o ansawdd uchel i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Mae'r BBC wedi darparu cyfraniad rhaglenni canolog i S4C ers sefydlu'r sianel, gan adeiladu ar ei ymrwymiad hirsefydlog i

ddarlledu yn yr iaith Gymraeg ar y radio ac ar y teledu. Ers 2013, mae'r BBC hefyd wedi bod yn gyfrifol am ddarparu, o ffi'r drwydded deledu, y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus y mae S4C yn ei dderbyn er mwyn darparu ei gwasanaethau.

O dan y cytundeb hwn, bydd y BBC yn parhau i ddarparu cyllid i S4C ar hyd cyfnod y Siarter bresennol, yn ogystal â rhaglenni, er mwyn cynnal gwasanaeth teledu Cymraeg cyfoethog sydd ar gael yn rhwydd. O 2019 ymlaen, bydd y BBC hefyd, o dan gytundeb, yn darparu gwasanaethau darlledu technegol ar gyfer dosbarthu gwasanaethau darlledu S4C.

Bydd y ddau sefydliad yn parhau i fod yn annibynnol – yn olygyddol ac yn weithredol – gyda strwythurau llywodraethiant ar wahân. Fodd bynnag, trwy gydweithio, credwn y gallwn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl o'r arian cyhoeddus dan sylw.

Bydd y bartneriaeth hon yn adeiladu ar lwyddiannau ein gwaith gyda'n gilydd yn ystod y 35 mlynedd diwethaf, gan ganiatau i ddarlledu Cymraeg gamu'n hyderus i'r dyfodol.



Syr David Clementi
CADEIRYDD Y BBC



Huw Jones
CADEIRYDD S4C



Tony Hall
CYFARWYDDWR CYFFREDINOL Y BBC



Owen Evans
PRIF WEITHREDWR S4C

**Gwnaed y Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd hwn
yn weithred ar 7fed o Dachwedd 2017**

rhwng:

Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG, corfforaeth gorfforedig trwy Siarter Frenhinol, sydd â'i swyddfa yn Broadcasting House, 1 Portland Place, Llundain W1A 1AA (y "**BBC**"); a

SIANEL PEDWAR CYMRU, corfforaeth statudol, o Barc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU ("**S4C**").

(gyda'i gilydd "y Partion")

LLE

- (A) O dan gymal 39 ei Gytundeb Fframwaith gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Ysgrifennydd Gwladol"), dyddiedig 7 Tachwedd 2016, ymrwymodd y BBC i ddarparu arian i S4C at ddiben darparu'r sianel deledu a adwaenir fel S4C ac unrhyw sianel deledu arall neu wasanaeth arall a gymeradwyir o dan adran 205 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("Gwasanaethau S4C").
- (B) Mae cymal 39 y Cytundeb hwnnw hefyd yn darparu—
- (1) bod rhaid i'r BBC ac S4C rannu'r un nod o gydweithio er mwyn cadw a diogelu annibyniaeth y ddau, a gwneud y defnydd gorau o'r cyfryw gyllid er budd cynulleidfaoedd (ac yn enwedig y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg), i'r graddau y byddo hynny'n gyson â'u rhwymedigaethau unigol o dan Siarter Frenhinol y BBC, y Cytundeb Fframwaith a deddfwriaeth berthnasol;
 - (2) bod rhaid i'r BBC gytuno ar drefniadau atebolrwydd gydag S4C, er mwyn i S4C ddarparu'r cyfryw sicrwydd ag y bydd y BBC ei angen yn rhesymol bod y cyllid a ddarparwyd gan y BBC yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithlon wrth ddarparu a darlledu neu ddsbarthu fel arall Wasanaethau S4C ; a
 - (3) bod rhaid i'r BBC ac S4C hefyd gytuno ar drefniadau sy'n parhau a datblygu'r bartneriaeth strategol ehangach rhyngddynt.

- (C) O dan adran 58(1) Deddf Darlledu 1990, mae'n ofynnol i'r BBC ddarparu i S4C, yn ddi-dâl ac mewn ffordd sy'n bodloni gofynion rhesymol S4C, ddigon o raglenni teledu Cymraeg i lenwi o leiaf ddeg awr o amser darlledu yr wythnos er mwyn galluogi S4C i gyflawni ei chylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus.
- (Ch) O dan erthygl 13 y Siarter Frenhinol, mae gan y BBC ddyletswydd i weithio'n gydweithredol a cheisio ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill lle y bo hynny er budd y cyhoedd, ac wrth wneud hynny mae'n rhaid iddo—
- (1) ffurfio partneriaethau ag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau o holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig; a
 - (2) sicrhau bod y partneriaethau hynny'n deg ac yn fuddiol i'r holl sefydliadau sy'n gysylltiedig.

Cytunir, ac mae'r weithred hon yn cofnodi, fel a ganlyn:

Darpariaethau cyflwyniadol ac egwyddorion arweiniol

1. Cyflwyniad

- 1.1. Diben y Cytundeb hwn yw amlinellu egwyddorion arweiniol a darpariaethau lefel uchel holl elfennau'r bartneriaeth newydd rhwng S4C a'r BBC, sy'n cynnwys —
 - 1.1.1. ar lefel uchel, sail y bartneriaeth strategol a chreadigol rhwng y BBC ac S4C;
 - 1.1.2. cyllid Ffi Drwydded y BBC ar gyfer S4C, a threfniadau atebolrwydd ar gyfer y cyllid hwnnw;
 - 1.1.3. ar lefel uchel, fframwaith (i'w ddatblygu'n fanylach mewn 'cytundeb golygyddol') ar gyfer darpariaeth y BBC o raglenni Cymraeg i S4C o dan adran 58 Deddf Darlledu 1990;
 - 1.1.4. gweithrediad partneriaeth ehangach y BBC – S4C, gan gynnwys cydweithredu creadigol a thechnegol a darparu cynnwys S4C ar BBC iPlayer;

- 1.1.5. ar lefel uchel, fframwaith ar gyfer y cytundeb arfaethedig i rannu a chydleoli gwasanaethau darlledu technegol ar gyfer S4C a'r BBC, gan gynnwys egwyddorion arweiniol a darpariaethau asesu perfformiad ar gyfer y bartneriaeth; a
- 1.1.6. threfniadau ar gyfer monitro gweithrediad y bartneriaeth.
- 1.2. Yn y Cytundeb hwn, mae'r "Siarter Frenhinol" yn golygu'r Siarter Frenhinol a roddwyd i'r BBC ym mis Rhagfyr 2016; ac mae'r "Cytundeb Fframwaith" yn golygu cytundeb y BBC gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, dyddiedig 7 Tachwedd 2016 (ond yn ddarostyngedig i gymal 1.4).
- 1.3. Bydd cyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at "Wasanaethau S4C" yn cynnwys unrhyw weithgareddau sy'n ychwanegol neu'n cydfynd â chyflawni swyddogaethau S4C mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau hynny.
- 1.4. Bydd cyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith, ac at unrhyw statud, darpariaeth statudol, rheoliad, rheol neu gôd, yn cael eu dehongli fel cyfeiriad at y cyfryw Siarter, Cytundeb, statud, darpariaeth statudol, rheoliad, rheol neu gôd fel y'i diwygir, addasir, disodlir neu ailddeddfir o bryd i'w gilydd.
- 1.5. Mae'r Cytundeb hwn yn disodli'r Cytundeb Gweithredu rhwng y Partïon dyddiedig mis Ionawr 2013 a Chytundeb y Bartneriaeth Strategol rhwng y Partïon dyddiedig Tachwedd 2012.
- 1.6. Ffurfir Bwrdd S4C gan aelodau a benodir yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol, ac ni fydd yn cynnwys unrhyw aelod neu gynrychiolydd a enwebir gan y BBC.

2. Cydnabod dyletswyddau unigol

- 2.1. Fel y nodir yng Nghymal 39 y Cytundeb Fframwaith, mae'r BBC ac S4C yn cydnabod y nod a rennir o gydweithio er mwyn cadw a diogelu annibyniaeth y ddau, a gwneud y defnydd gorau o'r cyfryw gyllid er budd cynulleidfaoedd (ac yn enwedig y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg), i'r graddau y byddo hynny'n gyson â'u rhwymedigaethau unigol o dan y Siarter, y Cytundeb hwn a deddfwriaeth berthnasol.
- 2.2. Mae S4C yn cydnabod bod rhaid i'r BBC weithredu o fewn y dyletswyddau a osodir arno gan neu o dan y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith, ac yn

ddarostyngedig i reoleiddio gan Ofcom, a bod rhaid iddo ymdrin â ffi'r drwydded fel yr amlinellir yn yr offerynnau hynny.

- 2.3. Mae'r BBC yn cydnabod bod S4C yn endid statudol gyda phwerau sy'n deillio o statud, ac felly nad yw S4C yn gallu gweithredu mewn modd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau penodol a osodir arni a'r pwerau a roddir iddi gan neu o dan statud (yn enwedig Deddfau Darlledu 1990 a 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003).
- 2.4. Yn unol â hynny, mae'r Cytundeb hwn wedi'i seilio ar ddwy rwymedigaeth gydbwysol—
 - 2.4.1. ar y BBC, rhwymedigaeth i gydnabod bod S4C yn gyfan gwbl gyfrifol am gyflawni ei chylch gorchwyl, ei dyletswyddau statudol (gan gynnwys dyletswyddau yn ymwneud â gwariant) a'i gweithgareddau a'i hamcanion ychwanegol fel y'u hamlinellir o bryd i'w gilydd gan S4C; ac
 - 2.4.2. ar S4C, rhwymedigaeth i gydnabod bod cyfraniad cyllid y BBC at S4C yn unol â chymal 39 y Cytundeb Fframwaith a'r ddarpariaeth cyflenwi rhaglenni yn unol ag adran 58 Deddf Darlledu 1990 yn elfennau pwysig o gylch gorchwyl y BBC a'i ddarpariaeth gyffredinol i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith o'i bwrpasau cyhoeddus a'r nodweddion gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u hymgorffori yn ei Siarter a'i Gytundeb.
- 2.5. Mae S4C yn atebol i'r Senedd am ddarparu Gwasanaethau S4C yn eu cyfanrwydd yn unol â darpariaethau statudol perthnasol, gan gynnwys Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

3. Partneriaeth

- 3.1. Yn y Cytundeb hwn, mae'r gair "partneriaeth" yn cyfeirio at y broses a ddefnyddir gan y BBC ac S4C i weithredu eu nod cyffredin o gydweithio er mwyn cadw a diogelu annibyniaeth y ddau, a gwneud y defnydd gorau o gyllid y BBC er budd cynulleidfaoedd (ac yn enwedig y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg), gydag ewyllys da a chydweithrediad.
- 3.2. Dylai'r bartneriaeth gynnwys, lle y bo'n briodol, cydweithredu ym meysydd technoleg; mynediad i'r iPlayer; datblygu prosiectau creadigol; materion golygyddol; hyrwyddo gwasanaethau'r BBC ac S4C; ac effeithlonrwydd gweithredol.

- 3.3. Bydd y bartneriaeth yn parhau am holl gyfnod y Siarter Frenhinol.
- 3.4. Mae'r BBC yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, ac S4C yn cytuno i:
- (i) sefydlu perthynas gydweithredol, dychmygus a chreadigol wedi'i seilio ar barch ac ymddiriedaeth gan y naill tuag at y llall o ran gofynion y ddau Barti;
 - (ii) cydweithio â'i gilydd ar bob agwedd o'r bartneriaeth; a
 - (iii) chydweithredu ar ddatblygiadau newydd a allai ddeillio o strategaeth y ddau barti, yn unigol neu ar y cyd, yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.
- 3.5. Ni thybir bod unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn awgrymu bod partneriaeth gyfreithiol yn bodoli rhwng y BBC ac S4C.
- 3.6. Mae'r Cytundeb hwn yn sicrhau ac yn parchu annibyniaeth olygyddol, rheolaethol a gweithredol y BBC ac S4C.
- 3.7. Ni fydd darpariaethau'r Cytundeb hwn yn effeithio ar statws S4C fel corfforaeth statudol annibynnol.

Cyllid ac Atebolrwydd

- 4. Cyfraniad ariannol y BBC ac adroddiadau sicrwydd ariannol**
- 4.1. Y swm sy'n daladwy gan y BBC i S4C o dan gymal 39 y Cytundeb Fframwaith ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol o 2017/2018 i 2021/2022 yw £74,500,000.
- 4.2. Bydd y BBC yn talu i S4C y symiau blynyddol a amlinellir yng nghymal 4.1 ar gyfer y flwyddyn berthnasol mewn rhandaliadau misol cyfartal ym mhob blwyddyn ariannol, yn ôl amserlen a gytunir o bryd i'w gilydd gan y Partion.
- 4.3. Ar ôl cwblhau'r adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac S4C, gytuno yn y Cytundeb Fframwaith ar y broses ar gyfer pennu'r symiau i'w talu mewn blynyddoedd dilynol hyd at 2027/28.
- 4.4. Bydd S4C yn atebol i'r BBC am wario cyllid ffi'r drwydded er mwyn darparu Gwasanaethau S4C yn unol â gofynion y Cytundeb hwn.

- 4.5. Bob chwe mis, bydd S4C yn darparu adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC (yr "Adroddiad Sicrwydd Ariannol"), er mwyn rhoi'r cyfryw sicrwydd i'r BBC ag y gallai fod arno ei angen yn rhesymol bod y cyllid a ddarperir gan y BBC yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithlon i ddarparu a darlledu Gwasanaethau S4C neu eu dosbarthu fel arall. Bydd cynnwys a fformat yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol yn dilyn y fframwaith sydd wedi ei nodi yn Atodiad 1 y Cytundeb hwn neu y cytunir arno fel arall o bryd i'w gilydd yn ysgrifenedig rhwng y Partion yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.
- 4.6. Bydd y cyfryw Adroddiad Sicrwydd Ariannol cyntaf ym mhob blwyddyn yn cael ei gyflwyno'n brydlon gan S4C yn dilyn chwe mis cyntaf pob blwyddyn ariannol, a bydd yr ail adroddiad yn cael ei gyflwyno'n brydlon gan S4C yn dilyn diwedd pob blwyddyn ariannol ac mewn da bryd i Fwrdd y BBC ystyried yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol yn rhan o'i broses adrodd ariannol blynyddol.
- 4.7. Yn amodol ar y darpariaethau statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r gofynion archwilio ar S4C, bydd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fynediad at gyfraniad ffi'r drwydded a ddarperir i S4C ar gyfer darparu Gwasanaethau S4C er mwyn cynnal archwiliadau i werth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd S4C wrth ddefnyddio ei adnoddau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.
- 4.8. Bydd S4C yn mynychu un cyfarfod o Bwyllgor Archwilio a Risg y BBC yn ystod pob blwyddyn i drafod yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol, gweithrediad fframwaith sicrwydd S4C ac agweddau ariannol partneriaeth S4C gyda'r BBC.
- 4.9. Bydd S4C yn darparu i'r BBC unrhyw bolisiâu perthnasol a gymeradwyir gan S4C sy'n ymwneud â chynnwys yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol ac y mae'r BBC o'r farn resymol fod arno ei angen er mwyn caniatau ystyriaeth o'r Adroddiad Sicrwydd Ariannol.

5. Y Cyfraniad Rhaglenni – cyflenwad rhaglenni statudol y BBC i S4C

- 5.1. Yn unol â'i rwymedigaethau o dan adran 58 Deddf Darlledu 1990, bydd y BBC yn darparu i S4C (yn ddi-dâl) ddigon o raglenni teledu Cymraeg i lenwi o leiaf 10 awr o amser darlledu yr wythnos i'w dangos ar Wasanaethau S4C yn unol â gofynion rhesymol S4C a gofynion strategaeth gynnwys S4C fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd (y "Cyfraniad Rhaglenni").
- 5.2. Ym mhob blwyddyn ariannol o 2017/18 i 2021/22, gwerth ariannol y Cyfraniad Rhaglenni a chyfraniadau eraill sy'n gysylltiedig â rhaglenni ac nad ydynt yn gysylltiedig â rhaglenni (gan gynnwys, heb gyfyngiad i gyffredinolrwydd yr hyn a grybwyllwyd eisoes, is-deitlo) gan y BBC fydd £19.4 miliwn.

- 5.3. Bydd y Partïon yn cytuno ar gynllun rhaglenni blynyddol ar gyfer y Cyfraniad Rhaglenni, a fydd yn diffinio ymrwymadau a rhwymedigaethau rhaglenni craidd y BBC yn unol â phob un o ddibenion cyhoeddus a rhwymedigaethau Siarter y BBC.
- 5.4. Ar ddechrau pob cylch cynllunio blynyddol, cyn cytuno ar y cynllun rhaglenni blynyddol, ac o fewn cyd-destun y cyllidebau a nodir yng nghymal 5.2, bydd y BBC (gan weithredu trwy BBC Cymru Wales) yn ymgynghori â rheolwyr S4C ynglŷn â gofynion tebygol S4C ar gyfer rhaglenni'r BBC o ran cyfrannu at strategaeth gynnwys gyhoeddedig S4C.
- 5.5. Wrth ddatblygu ei ymateb i Strategaeth Gynnwys S4C, bydd y BBC yn trafod gydag S4C er mwyn ceisio cytuno ar b'un a ydynt o'r farn bod yr ymateb yn bodloni gofynion rhesymol S4C a'r dibenion cyhoeddus sy'n ofynnol gan y BBC.
- 5.6. Ar ôl cytuno'n derfynol ar y cynllun rhaglenni blynyddol, bydd argymhelliad ar y cyd rheolwyr BBC Cymru ac S4C yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cymru Bwrdd y BBC a Bwrdd S4C i'w gymeradwyo o fewn fframwaith llywodraethiant strategol blynyddol y BBC ac S4C.
- 5.7. Bydd y Partïon yn amlinellu manylion yn ymwneud â'r Cyfraniad Rhaglenni mewn Cytundeb Golygyddol.
- 5.8. Mae'r BBC yn gyfan gwbl gyfrifol am sut y mae'n cydymffurfio ag adran 58 ac am werth am arian gwariant y BBC, ac mae'n ymrwymo i wneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni gofynion rhesymol S4C.
- 5.9. Bydd cyfarfodydd ar y cyd rhwng timau rheoli'r BBC ac S4C yn cael eu cynnal yn rheolaidd i asesu a monitro effaith cyfraniad y BBC yn erbyn targedau sydd wedi eu cytuno, ac i rannu gwybodaeth am gynnwys rhaglenni, y broses gynhyrchu ac amserlennu.

Partneriaeth Weithredol

6. Y bartneriaeth weithredol

- 6.1. Mae'r bartneriaeth rhwng y BBC ac S4C yn ehangach na'r trefniadau cyllido ac atebolrwydd, ac ar wahân i ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, mae'n ymestyn i bartneriaeth greadigol o fewn y ddau sefydliad.
- 6.2. Bydd y bartneriaeth rhwng y BBC ac S4C yn cynnwys darparu cynnwys S4C ar BBC iPlayer ar hyd cyfnod y Cytundeb hwn a bydd yn galluogi S4C i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac elwa ar ddatblygiadau newydd wrth i'r iPlayer

ddatblygu. Bydd manylion y ddarpariaeth hon yn cael eu hamlinellu mewn cytundeb ar wahân rhwng S4C a'r BBC yn ymwneud â'r iPlayer.

- 6.3. Bydd y Bwrdd Partneriaeth ar y cyd a sefydlwyd gan y BBC ac S4C yn 2013 yn parhau fel y prif fforwm ar gyfer y bartneriaeth a bydd yn gyfrifol am reoli'r bartneriaeth o ddydd i ddydd.
- 6.4. Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn cael ei lywodraethu gan y Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodiad 2.

7. Cyfarfod Strategol

- 7.1. Bydd Cadeirydd y BBC a Chadeirydd S4C (neu eu cynrychiolwyr) yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod y bartneriaeth ac, yn arbennig, i—
 - 7.1.1. adolygu cynnydd yn erbyn y Cytundeb hwn;
 - 7.1.2. trafod perfformiad cyffredinol; ac
 - 7.1.3. amlygu unrhyw feysydd y mae angen eu hadolygu neu eu newid.

8. Cydleoli a rhannu gwasanaethau darlledu technegol

Amcanion

- 8.1. Prif amcan y ddau Barti wrth gytuno ar gytundeb i rannu gwasanaethau darlledu technegol rhwng y Partion yw gweithredu'n fwy effeithlon a sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol i'r BBC ac S4C.
- 8.2. Trwy lunio'r Cytundeb Gwasanaethau Technegol, bydd S4C, am y tro cyntaf yn ei hanes, yn allanoli gweithgareddau darlledu technegol dan gytundeb. Bydd y rhain, o hyn allan, yn cael eu darparu a'u rheoli o ddydd i ddydd gan staff y BBC, ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau eraill.
- 8.3. Mae'n anochel, er mwyn bodloni disgwyliadau ei chynulleidfa, y bydd gwasanaethau a gofynion technegol S4C yn datblygu ac esblygu, mewn ffyrdd y mae'n amhosibl i ddogfen gyfreithiol eu cyfleu'n ddigonol. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i gyfleoedd wrth iddynt godi.
- 8.4. Mae'r BBC ac S4C yn cytuno fel amcan allweddol o'r bartneriaeth hon, y dylai Gwasanaethau S4C, ddangos eu bod yn gallu cyflawni anghenion technegol S4C yn brydlon ac yn hyblyg, yn unol â safonau'r diwydiant ac yn yr un modd ag y mae'r BBC yn eu darparu neu'n eu caffael i'w hunan.

Lefel Gwasanaeth

- 8.5. Mae S4C a'r BBC yn bwriadu cydleoli a rhannu gwasanaethau technegol ar gyfer darlledu a darparu Gwasanaethau S4C a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru, yng nghanolfan ddarlledu newydd y BBC yn y Sgwâr Canolog, Caerdydd.
- 8.6. Nodir y darpariaethau manwl sy'n ymwneud â'r cydleoli mewn Cytundeb ar gyfer Trwydded dyddiedig 16 Tachwedd 2015 sy'n ymrwymo S4C a'r BBC i ymrwymo i Drwydded a fydd yn rhoi hawliau penodol i S4C feddiannu gofod yn Sgwâr Canolog, Caerdydd a nodir y darpariaethau manwl yn ymwneud â rhannu gwasanaethau darlledu technegol mewn CGT rhwng y Partion.
- 8.7. Mae'r BBC yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, ac S4C yn cytuno i:
 - (iv) sefydlu perthynas gydweithredol, ddychmygus a chreadigol wedi'i seilio ar barch ac ymddiriedaeth gan y naill tuag at y llall o ran gofynion y ddau Barti;
 - (v) cydweithio â'i gilydd ar bob agwedd o'r CGT;
 - (vi) cydweithredu ar ddatblygiadau newydd a allai ddeillio o strategaeth y ddau barti, yn unigol neu ar y cyd, yn ystod cyfnod y CGT;

Yn ogystal, mae'r BBC yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig yn cytuno i:

- (vii) sicrhau bod yr holl wasanaethau a ddarperir gan y BBC i S4C yn cael eu darparu ar sail deg, rhesymol ac anwahaniaethol;
- (viii) sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i S4C gan y BBC a chontractwyr trydydd parti o'r un ansawdd technegol ac ar gael i'r un lefel ag y byddai'r BBC yn ei ddisgwyl ar gyfer ei wasanaethau teledu ac ar-lein lleol a rhwydwaith ei hun; a
- (ix) gweithredu yn unol â'i ddyletswydd partneriaeth a nodir yng nghymal 13 y Siarter Frenhinol.

Asesu Perfformiad y CGT

- 8.8. Bob chwe mis, bydd Prif Weithredwr S4C a Chyfarwyddwr BBC Cymru yn trafod perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i S4C o dan y CGT. Yn dilyn pob trafodaeth o'r fath, dylai eu hasesiadau gael eu darparu i Fwrdd y BBC, a Bwrdd S4C.
- 8.9. Bydd y cyfryw asesiad o berfformiad yn ystyried perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i S4C o dan y CGT yn unol â darpariaethau manwl y CGT a'r egwyddorion a amlinellir yng nghymal 8.7 uchod.

Uwchgyfeirio

- 8.10. Mae'r CGT yn cynnwys gweithdrefn datrys anghydfod aml-haen i ymdrin ag unrhyw anghydfodau o dan y CGT neu fethiant i gytuno pan fydd angen cytundeb. Yn y pen draw, gallai hyn gynnwys uwchgyfeiriad i Gadeirydd S4C a Chadeirydd y BBC. Os cychwynir y weithdrefn hon bydd y partïon yn:
 - (i) sicrhau bod eu cynrychiolwyr unigol yn ymgysylltu'n adeiladol â'r broses er mwyn canfod datrysiadau sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ac yn gyson ag amcanion y Cytundeb hwn a'r CGT;
 - (ii) ceisio datrys y mater mewn modd amserol ac yn cyflymu'r broses pan fydd angen, gan ystyried difrifoldeb a brys y sefyllfa;
 - (iii) sicrhau bod y datrysiad y cytunwyd arno yn ysgrifenedig yn cael ei roi ar waith gan yr holl dimau perthnasol yn eu sefydliadau unigol.

Darpariaethau cyffredinol

9. Comisiynu cynnwys a chydymffurfiaeth S4C

- 9.1. Mae S4C yn ddarlledwr comisiynu sy'n comisiynu ei gynnwys gan ystod o gwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae S4C hefyd yn comisiynu rhaglenni penodol, yn ychwanegol at y rhai hynny a ddarperir o dan statud gan y BBC. Ni fydd y Cytundeb hwn yn effeithio ar ryddid S4C i gomisiynu cynnwys gan ystod o ffynonellau priodol, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol a'r BBC.
- 9.2. Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn effeithio ar ddyletswydd statudol S4C, fel y'i hamlinellir yn Rhan 2 Atodlen 12 Deddf 2003, i sicrhau bod Gwasanaethau S4C yn cydymffurfio â gofynion perthnasol Ofcom.

10. Gweithgareddau masnachol S4C

- 10.1. Bydd S4C yn cadw ei rhyddid masnachol a bydd gweithgareddau masnachol S4C yn parhau i weithredu yn unol â'r fframwaith statudol perthnasol.

11. Cyfrinachedd

- 11.1. Mae'r BBC ac S4C wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaeth greadigol a chydweithredol er budd ein cynulleidfaoedd, sy'n agored a thryloyw. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd angen trafod materion neu rannu gwybodaeth yn gyfrinachol.
- 11.2. Mae'r BBC ac S4C yn cytuno i gadw'n gyfrinachol bob amser unrhyw wybodaeth gyfrinachol a ddatgelir iddynt gan y llall trwy gyfrwng y Cytundeb hwn ac i'w defnyddio at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth yn unig.
- 11.3. Nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan y parti sy'n ei derbyn gyda chaniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y parti sy'n ei datgelu neu—
 - 11.3.1. sy'n gyhoeddus neu sy'n dod yn gyhoeddus yn ddiweddarach heb i'r parti sy'n derbyn dorri'r rhwymedigaeth gyfrinachedd hon neu unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd arall;
 - 11.3.2. gall y parti sy'n derbyn ddangos bod y wybodaeth yn ei feddiant neu wedi'i datblygu neu ei datgelu'n annibynnol ganddo neu iddo cyn iddi gael ei derbyn gan y parti sy'n datgelu (ac ni chafwyd y wybodaeth yn flaenorol gan y parti sy'n datgelu yn amodol ar unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd);
 - 11.3.3. yn cael ei datgelu i'r parti sy'n derbyn gan drydydd parti heb i'r parti sy'n derbyn neu'r cyfryw drydydd parti dorri unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd sy'n ddyledus i'r parti sy'n datgelu, neu'n cael ei datgelu gan y parti sy'n datgelu i drydydd parti heb gyfyngiad ar ddatgelu neu ddefnydd; neu
 - 11.3.4. y mae'n ofynnol ei datgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu yn unol â'r Siarter Frenhinol neu'r Cytundeb Fframwaith, neu y mae'n ofynnol ei datgelu fel arall gan y gyfraith, gorchymyn llys, gofynion Ofcom neu unrhyw awdurdod rheoleiddiol arall, neu unrhyw awdurdod trethi neu reolau unrhyw gyfnewidfa stoc.

12. Force Majeure

- 12.1. Ni fydd y BBC nac S4C yn atebol am unrhyw fethiant i gyflawni neu oedi wrth gyflawni unrhyw rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn a achosir gan

amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth resymol ('Digwyddiad Force Majeure'), ond—

12.1.1. bydd y parti sy'n hawlio'r Digwyddiad Force Majeure yn cymryd pob cam rhesymol sy'n angenrheidiol i ddod â'r digwyddiad hwnnw i ben neu ganfod datrysiad sy'n caniatáu iddo barhau i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon; ac

12.1.2. ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn lleihau nac yn disodli rhwymedigaethau'r BBC o dan baragraffau 5 a 6 ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol.

13. Hyd y Cytundeb, ac adolygu

13.1. Mae'r BBC ac S4C yn bwriadu i'r Cytundeb hwn weithredu am gyfnod cyfan Siarter Frenhinol y BBC hyd at fis Ebrill 2028, yn amodol ar adolygu (os bydd angen) o leiaf—

13.1.1. ar ôl cwblhau'r adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, ac

13.1.2. wrth baratoi ar gyfer ail gyfnod ffi'r drwydded, a fydd yn dechrau, yn ôl y Siarter Frenhinol, ar 1 Ebrill 2022.

14. Datrys anghydfod

14.1 Os na all y BBC ac S4C gytuno ar ddehongliad darpariaethau'r Cytundeb hwn neu faterion cysylltiedig, bydd y sefyllfa'n cael ei hadrodd i Fwrdd y BBC a Bwrdd S4C.

14.2 Bydd Cadeiryddion y BBC ac S4C yn cyfarfod er mwyn dod i gytundeb terfynol ar y materion hynny. Gallai'r cyfarfod hwnnw, yn ôl disgrisiwn y Cadeiryddion gyda'i gilydd, gael ei gynnal o dan gadeiryddiaeth annibynnol os yw'r ddau Gadeirydd o'r farn y bydd hynny'n debygol o'u cynorthwyo i ddod i'r cyfryw gytundeb.

15. Newidiadau i'r Cytundeb hwn

15.1. Heblaw am newidiadau sy'n deillio o adolygiad o dan gymal 13, caiff y naill Barti neu'r llall gynnig newidiadau i'r cytundeb hwn ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod; ac mae'r Partion yn cytuno i ystyried unrhyw newidiadau a gynnigir gydag ewyllys da.

- 15.2. Bydd newidiadau a gynigir yn cael eu trafod rhwng Cadeirydd y BBC a Chadeirydd S4C (neu eu cynrychiolwyr) ac, os cytunir arnynt, fe'u hymgorfforir trwy gyfrwng diwygiadau i'r Cytundeb hwn.
- 15.3. Gallai newidiadau o bwys fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, os yw'r Partïon yn cytuno.

MAE'R WEITHRED HON yn cael ei chyflawni'n briodol gan y Partïon i hyn ond yn parhau heb ei gweithredu tan y diwrnod a'r flwyddyn a nodir uchod.

Atodiad 1

Fformat ar gyfer Adroddiad Sicrwydd Ariannol S4C i'w gyflwyno bob chwe mis i'r BBC

1. Barn y Bwrdd: Rheoleidd-dra a Phriodoldeb

Bydd yr adroddiad yn nodi barn Bwrdd S4C ynglŷn â rheoleidd-dra a phriodoldeb gweithgareddau Cronfa Gwasanaeth Cyhoeddus S4C ar gyfer y Cyfnod, a bydd yn cadarnhau'r safonau cyfrifyddu perthnasol a ddefnyddir gan S4C.

2. Prif weithgareddau S4C

Bydd yr adroddiad yn nodi disgrifiad o brif weithgareddau S4C yn ystod y Cyfnod a hefyd y gofynion statudol perthnasol a gofynion eraill sy'n rheoli darpariaeth gwasanaethau S4C.

3. Strwythur ac atebolrwydd S4C

Bydd yr adroddiad yn nodi disgrifiad o strwythur a threfniadau atebolrwydd S4C.

4. Aseiad Perfformiad

Bydd yr adroddiad yn nodi blaenoriaethau strategol S4C a'r fframwaith asesu perfformiad a gymeradwywyd gan Fwrdd S4C a ddefnyddir i asesu perfformiad Gwasanaethau S4C wrth gyflwyno strategaeth cynnwys S4C.

5. Paratoi Datganiadau Ariannol

Bydd yr adroddiad yn nodi'r gofynion ar Fwrdd S4C mewn perthynas â pharatoi ei Ddatganiad Ariannol blynyddol.

6. Busnes Gweithredol a Datganiad Hyfywedd

Bydd yr adroddiad yn nodi Datganiad Hyfywedd Bwrdd S4C.

7. Cwmpas y sicrwydd ariannol

Bydd yr adroddiad yn nodi cwmpas y sicrwydd ariannol a ddarperir gan Fwrdd S4C.

8. Incwm a Dderbyniwyd

Bydd yr adroddiad yn nodi manylion ynghylch cyfanswm yr incwm cyhoeddus a dderbyniwyd gan S4C yn ystod y Cyfnod.

9. Y Gyllideb Flynyddol a'r Rhaglen Effeithlonrwydd

Bydd yr adroddiad yn nodi gwybodaeth ynghylch y gyllideb flynyddol a gymeradwyir gan Fwrdd S4C.

10. Gwariant Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystod y Cyfnod

Bydd yr adroddiad yn nodi crynodeb o wariant y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystod y cyfnod, ynghyd â gwybodaeth ynghylch amseru ac amrywiadau i'r gyllideb a gymeradwywyd.

11. Fframwaith Sicrwydd

Bydd yr adroddiad yn nodi'r fframwaith sicrwydd a ddefnyddir gan Fwrdd S4C a gynlluniwyd i sicrhau'r safonau uchaf o stiwardiaeth ariannol a rheoli risg.

12. Darparu gwybodaeth ariannol i'r DCMS a'r NAO

Bydd yr adroddiad yn nodi'r gofynion perthnasol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth ariannol i'r DCMS a'r NAO ac unrhyw wybodaeth ariannol a ddarparwyd yn ystod y Cyfnod.

13. Materion Eithriadol i'w Nodi

Bydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw faterion eithriadol y mae'r Bwrdd o'r farn fod angen eu dwyn i sylw Bwrdd y BBC.

Atodiad 2

Bwrdd Partneriaeth S4C/BBC

Cylch Gorchwyl

Yn ogystal â'r trefniadau cyllido ac atebolrwydd a gytunwyd rhwng y BBC ac S4C, bydd swyddogion gweithredol BBC Cymru ac S4C yn parhau i ddatblygu partneriaeth rhwng y ddau sefydliad ar lefel weithredol.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth, a sefydlwyd gan Gytundeb Gweithredu 2013, yn gyfrifol am ddatblygu cydweithredu agosach rhwng y BBC ac S4C, a bydd yn parhau fel y fforwm ar gyfer y bartneriaeth hon.

Amlinellir Cylch Gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth ar y cyd isod.

1. Awdurdod

Bydd y Bwrdd Partneriaeth ar y cyd yn goruchwyllo datblygiad a darpariaeth partneriaethau BBC-S4C, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd trwy gydweithio.

Gallai'r Bwrdd Partneriaeth o bryd i'w gilydd, ddatblygu argymhellion i'w hystyried gan y timau rheoli unigol.

Bydd ystyriaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth, bob amser yn:

- gyson â thelerau'r Cytundeb hwn;
- ddarostyngedig i adran 58 Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd);
- gyson â darpariaethau Siarter a Chytundeb y BBC; ac
- gyson â'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud ag S4C.

2. Diben a Chylch Gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth

Diben y Bwrdd Partneriaeth yw:

- 2.1 datblygu meysydd cydweithredu strategol rhwng S4C a'r BBC;
- 2.2 adnabod a datblygu meysydd cydweithredu creadigol rhwng S4C a'r BBC er budd y gynulleidfa;

- 2.3 adnabod ac archwilio cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd BBC–S4C a datblygu argymhellion i’w hystyried gan y timau rheoli unigol;
- 2.4 adnabod sut i ddarparu ffyrdd cydweithredol o weithio sydd wedi cael eu hadnabod neu eu cymeradwyo gan fwrdd rheoli S4C a Phwyllgor Gweithredol y BBC (gyda’i gilydd, “y byrddau rheoli”);
- 2.5 rheoli gweithrediad y CGT;
- 2.6 cefnogi gwaith y byrddau rheoli wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd sy’n dod o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth. Er mwyn cynorthwyo cydweithredu rhwng y BBC ac S4C, bydd y Bwrdd Partneriaeth hefyd yn cael gwybod am yr holl fentrau sy’n ymwneud â’r BBC ac S4C a allai fod y tu allan i gylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth. Bydd BBC Cymru yn adrodd i Fwrdd y BBC, a bydd bwrdd rheoli S4C yn adrodd i Fwrdd S4C, yn rheolaidd, ar gynnydd wrth gyflawni’r cyfryw arbedion effeithlonrwydd;
- 2.7 rhannu gwybodaeth am gynnydd wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arferion gwaith cydweithredol sy’n dod o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth a holl elfennau eraill cydweithredu rhwng y BBC ac S4C; a
- 2.8 rhannu gwybodaeth am newidiadau strategol allweddol i’r BBC neu S4C a allai effeithio ar y parti arall.

3. Aelodaeth

Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn cynnwys nifer cyfartal o gynrychiolwyr o’r ddau sefydliad. O bryd i’w gilydd, efallai y bydd cyfranogwyr ychwanegol yn cael eu gwahodd i drafod meysydd o ddiddordeb penodol.

4. Amllder a threfniadaeth

Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob tri mis. Bydd y cyfrifoldeb am drefnu a chadeirio pob cyfarfod yn cylchdroi rhwng y BBC ac S4C (a fydd yn cynnwys paratoi a dosbarthu’r holl waith papur perthnasol). Bydd agenda cytunedig yn cael ei dosbarthu wythnos cyn pob cyfarfod.

5. Gweithdrefn

Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig llawn o bob cyfarfod yn cael eu cynnal a'u cymeradwyo fel cofnod cywir ym mhob cyfarfod dilynol, a bydd copïau ohonynt ar gael i Fwrdd y BBC a Bwrdd S4C.